## Ysgol Uwchradd Bodedern

# Polisi Ffonau Symudol

## (Mawrth 2026)

| Dyddiad Mabwysiadu | Llofnod Cadeirydd | Llofnod Pennaeth |
|---|---|---|
| 25/3/2026 | [illegible] | [illegible] |

# POLISI DEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL

## NOD

Mae gan yr ysgol ddyletswydd addysgiadol a llesol tuag at ei dysgwyr a'i staff a thrwy hynny, mae'r ysgol yn hyrwyddo atal camdriniaeth ac esgeulustod trwy greu a chynnal awyrgylch diogel i'w dysgwyr a'i staff.

Mae'r ysgol o'r farn bod ffonau symudol yn cael effaith negyddol ar allu dysgwyr i ganolbwyntio ac ymroi i'w haddysg, yn ogystal â chreu cyfleoedd di-angen i lesteirio lles ein dysgwyr e.e. rydym o'r farn bod bwlio technolegol/cyfathrebol yn sefyll ochr yn ochr â ffurfiau eraill o fwlio.

O ganlyniad ni ellir caniatáu defnyddio ffonau symudol nac unrhyw offer electronig personol arall yn yr ysgol e.e. iPad/tabled, chwaraewyr cerddoriaeth, clustffonau (nid yw hwn y restr cynhwysfawr).

Mi fydd yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth rhieni, dysgwyr a staff o safbwynt y llywodraethwyr:

**CANLLAWIAU DYSGWYR**
**Defnydd Cyfrifol o Dechnoleg**
Mae'r oes dechnolegol hon yn cynnig nifer o fanteision i ddysgwyr ond mae'r ysgol hefyd yn gorfod delio gyda sgil-effeithiau y camddefnydd o'r dechnoleg hon. Gofynnwn am eich cefnogaeth a chydweithrediad gyda'r canlynol:

**Ffonau Symudol ac offer electroneg personol**
Ni ddylai dysgwyr ddod â ffonau symudol nag offer electroneg personol i'r ysgol. Rydym wedi cael enghreifftiau o ffonau yn amharu ar wersi, dysgwyr yn tynnu lluniau a fideos gyda chamera ar y ffôn heb ganiatâd y person hwnnw, dysgwyr yn anfon negeseuon amharchus i'w gilydd a hyd yn oed yn cyfathrebu i drefnu cyfarfod yn y toiledau yn ystod gwersi ayyb. Yn ogystal, mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn anghymhwyso (*disqualify*) dysgwr os byddant yn cael eu dal gyda ffôn neu declun electroneg personol arall yn eu meddiant.
Gall unrhyw ddysgwr y mae arno angen defnyddio ffôn yn ystod y dydd ddefnyddio ffôn yr ysgol, drwy ymweld â'r Dderbynfa.

**Noder: Bydd staff yn rhoi gwybod i ddysgwyr a'u rhieni os bydd caniatâd iddynt fynd â ffôn symudol gyda nhw ar daith addysgol am resymau iechyd a diogelwch. Yn ychwanegol, bydd dysgwyr sy'n ddibynnol ar offer electronig i reoli cyflyrau meddygol fel clefyd siwgr wedi eu heithrio o'r polisi ac wedi eu nodi ar ein cofrestr meddygol brys.**

**Noder hefyd:**
**Os nad yw'r dysgwyr yn cadw at y rheolau, yna bydd aelod o staff yn cadw'r ffôn/clust ffonau/teclun electronig, am weddill y dydd. Os bydd gwrthwynebiad gan y dysgwr, bydd rhieni'n cael eu galw i'r ysgol.**

1. **Nodyn ar gyfer Bwletin Rhieni** (i'w gyhoeddi yn rheolaidd)

**FFÔNAU SYMUDOL AC OFFER ELECTRONEG PERSONOL**

Fel yr ydych yn ymwybodol, ni ddylai dysgwyr ddod â ffonau symudol nac unrhyw offer electroneg personol arall i'r ysgol. Mae'r ysgol o'r farn bod ffonau symudol ac offer electroneg personol eraill yn cael effaith negyddol ar allu dysgwyr i ganolbwyntio ac ymroi i'w haddysg, yn ogystal â chreu cyfleoedd di-angen i lesteirio lles ein dysgwyr e.e. rydym o'r farn bod bwlio technolegol/cyfathrebol yn sefyll ochr yn ochr â ffurfiau eraill o fwlio. Hefyd, mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn anghymhwyso (*disqualify*) dysgwr os bydd ffôn symudol neu declun electroneg personol yn cael ei ddarganfod mewn unrhyw ystafell arholiad

**TREFN DYSGWRU**

Pe bai dysgwr yn defnyddio ffôn symudol neu unrhyw offer electroneg personol tra ar safle'r ysgol mi fydd yn derbyn cosb yn unol â 'Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Da' yr ysgol. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn roi ei ffôn neu declyn i aelod o staff bydd yn ei gadw mewn amlen gydag enw'r dysgwr arno unai yn y Dderbynfa neu goridor yr UDRh. Dychwelir y ffôn symudol/teclyn electroneg ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Os bydd y dysgwr yn gwrthwynebu rhoi y ffôn/teclyn i'r aelod staff, bydd rhiant y dysgwr yn cael eu galw i'r ysgol. Os bydd y dysgwr yn torri'r rheol dair gwaith, cedwir y ffôn hyd nes bydd rhiant wedi dod i'r ysgol i'w nôl ac i drafod y mater.

**CANLLAWIAU STAFF**

Ni ddylid defnyddio ffôn symudol nag offer electroneg personol tra yng nghwmni dysgwyr.

# POLICY ON THE USE OF MOBILE PHONES

## AIM

The school has a duty towards the education and wellbeing of its learners and staff and as such, the school promotes the prevention of abuse and neglect by creating and maintaining a safe environment for its learners and staff.

The school believes that mobile phones and other personal electronic equipment have a negative impact on learners' ability to concentrate and engage in their education, as well as creating unnecessary opportunities to jeopardize the wellbeing of our learners e.g. we believe that technological/communicative bullying stands alongside other forms of bullying.

As a result, the use of mobile phones or any other personal electronic equipment in the school e.g. iPad/tablet, music players, headphones cannot be allowed (this is not an exhaustive list).

The school will raise the awareness of parents, learners and staff from the governors' perspective:

## LEARNER GUIDANCE

### Responsible Use of Technology

This technological age offers several benefits to learners, but the school also must deal with the side effects of the misuse of this technology. We ask for your support and co-operation with the following:

### Mobile Phones and Personal Electronic Equipment

Learners should not bring mobile phones or personal electronic equipment to school. We have had examples of phones disrupting lessons, learners taking pictures and videos with a camera on their phones without consent; learners sending disrespectful messages to each other and even communicating to arrange a meeting in the toilets during lessons etc. In addition, the exam boards have strict rules and will disqualify learners if they are caught with a phone in their possession.
Any learner who needs to use a telephone during the day can use the school phone, by visiting the Reception.

**Note: Staff will inform learners and their parents if they are allowed to take a mobile phone with them on an educational trip for health and safety reasons. In addition, learners who rely on electronic equipment to manage medical conditions such as diabetes will be exempt from the policy and identified on our emergency medical register.**

**Please also note:**
**If the learners do not adhere to the rules, then a member of staff will keep the phone/earphones/electronic device, for the rest of the day. If there is an objection from the learner, parents will be called to the school.**

1. **Note for Parent Bulletin** (to be published regularly)

**MOBILE PHONES AND PERSONAL ELECTRONIC EQUIPMENT**

As you are aware, learners should not bring mobile phones or any other personal electronic equipment (such as a watch that connects to the internet) to school. The school believes that mobile phones and other personal electronic equipment have a negative impact on learners' ability to concentrate and engage in their education, as well as creating unnecessary opportunities to jeopardize the wellbeing of our learners e.g. we believe that technological/communicative bullying stands alongside other forms of bullying. In addition, the exam boards have strict rules and will disqualify learners if a mobile phone is found in any exam room.

**DISCIPLINARY PROCEDURE**

If a learner uses a mobile phone or any personal electronic equipment while on the school premises they will be sanctioned in accordance with the school's 'Promoting Good Behaviour Policy'. The individual will be expected to give their phone or device to a member of staff who will keep it in an envelope with the learner's name on it either in the Reception or the SLT corridor. The mobile phone/electronic device will be returned at the end of the school day. If the learner objects to giving the phone/device to the staff member, the learner's parent will be called to the school. If the learner breaks the rule three times, then the phone will be kept until a parent has come to the school to pick it up and discuss the matter.

**STAFF GUIDANCE**

A mobile phone or personal electronic equipment should not be used while in the company of learners.